Older People's Commissioner for Wales
Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru

Cyfarfod y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg

Dyddiad: 24 Ionawr 2017

Lleoliad: Swyddfa Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru

Yn bresennol:
Ian Summers, Cadeirydd
Steve Harford
Steve Milsom

Hefyd yn bresennol:
Sarah Rochira, Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru
Kelly Davies, Cyfarwyddwr Materion Corfforaethol
Daisy Cole, Cyfarwyddwr Lles a Grymuso
Mary Gillard, Rheolwr Cyllid
Sue Hayward, Ysgrifenyddiaeth

Swyddfa Archwilio Cymru
Julie Rees

Deloitte
Claire Edge
Lauren Parsons

Cafwyd ymddiheuriadau gan
Mutale Merrill, aelod o'r Pwyllgor
Ian Howse, Deloitte
Derwyn Owen, Swyddfa Archwilio Cymru

1. Gwnaed y cyflwyniadau

Diolchodd y Pwyllgor i Katherine Shafer, Deloitte, am gefnogi'r Pwyllgor a dymunodd yn dda iddi yn ei rôl newydd.

Newidiadau i Aelodaeth y Pwyllgor

Adroddodd y Comisiynydd y bydd cyfnod Ian Summers yn ei swydd fel Cadeirydd yn dod i ben ddiwedd mis Mawrth 2017. Diolchodd iddo'n ffurfiol am ei waith a'i gefnogaeth yn ystod ei gyfnod yn y swydd.

Dywedodd y Comisiynydd ei bod wedi cynnig rôl y Cadeirydd i Steve Harford o 1 Ebrill 2017 ymlaen, a'i fod wedi derbyn.

Mae'r broses recriwtio'n mynd rhagddi ar gyfer cael aelod newydd ar y Pwyllgor.

a) Cofrestr Buddiannau

Nid oedd dim.

b) Cyngor a ddarparwyd i'r Comisiynydd neu i'w staff

Dywedodd Steve Milson ei fod yn aelod o'r Panel Arbenigol ar Hawliau Pobl Hŷn.

2. Cofnodion y cyfarfod diwethaf a materion yn codi

Cymeradwyodd y Pwyllgor gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 25 Hydref 2016 fel cofnod cywir.

a) Materion yn Codi

Dywedodd y Cadeirydd fod yr aelodau wedi cynnal ymarfer hunan arfarnu blynyddol byr, yn unol â Chylch Gorchwyl y Pwyllgor. Roedd y canlyniadau'n foddhaol ac adroddodd y Cadeirydd am yr ymarfer i'r Comisiynydd. Roedd yn cynnwys sylwadau ynghylch hyfforddiant a datblygiad aelodau yn y dyfodol; mater a fydd yn cael ei drafod yn Niwrnod Datblygu'r Pwyllgor ym mis Mai.

Diolchodd y Cadeirydd i'r aelodau am eu cyfraniadau.

3. Archwiliad Mewnol - Deloitte

a) Llywodraethu Corfforaethol a Rheoli Risg

Nododd y Pwyllgor fod un argymhelliad o ran y Gofrestr Risg, a'i fod wedi cael ei dderbyn a'i roi ar waith.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Archwilwyr Mewnol am yr adroddiad.

4. Swyddfa Archwilio Cymru
a) Cynllun Archwilio 2017

Amlinellodd Swyddfa Archwilio Cymru fanylion y cynllun, a gymeradwywyd gan y Pwyllgor.

5. Adroddiad ar y prif bwyntiau yng nghynllun busnes 2016/17 - Chwarter 3

Rhoddodd Kelly Davies drosolwg i ni ar adroddiad Chwarter 3 ar gyfer rhaglen waith 2016/17. Esboniodd nifer o'r pwyntiau a godwyd gan aelodau. Hefyd, cytunodd y byddai sylwadau am unrhyw waith a oedd yn cael ei ddynodi'n GOCH yn cael ei gynnwys mewn adroddiadau ar y prif bwyntiau yn y dyfodol.

6. Y Gofrestr Risg Gorfforaethol

Nododd y Pwyllgor fod yr argymhellion yn adolygiad archwilio mewnol y Comisiynydd ar gyfer rheoli risg bellach wedi cael eu rhoi ar waith.

Yn dilyn trafodaethau, cytunodd y Comisiynydd i rannu'r fersiwn wedi'i diweddaru o'r Polisi Rheoli Risg â'r aelodau.

Nododd y Pwyllgor nad oedd unrhyw beth i'w uwchgyfeirio i'r Gofrestr Risg Gorfforaethol y tro hwn.

Cadarnhaodd aelodau'r Pwyllgor eu bod yn hapus gyda ffurf ddiweddaraf y Gofrestr.

7. Y diweddaraf am y canlyniadau a ragwelir ar gyfer 2016/17 a Dyfarniad Cyflog 2016/17

8. Cynllun ariannol 3 blynedd drafft, 2017/18-2019/20

Cytunodd y Cadeirydd i drafod y ddwy eitem gyda'i gilydd.

Rhoddodd y Comisiynydd y cyd-destun cefndirol i'r papurau.

Cadarnhaodd y Comisiynydd ei bod wedi cytuno i ddyfarniad tâl o 1% i staff yn unol â Llywodraeth Cymru.

9. Safonau'r Gymraeg

Cadarnhaodd Kelly Davies fod apêl y Comisiynydd i Gomisiynydd y Gymraeg wedi'i thynnu'n ôl. Roedd hyn yn dilyn cael gwybod y byddai Comisiynydd y Gymraeg yn caniatáu cyfieithu ar y pryd. Nodwyd fod y Comisiynydd bellach yn cydymffurfio â phob un o Safonau'r Gymraeg.

10. Adolygiad o bolisïau allweddol

a) Teithio a Chynhaliaeth

Nododd y Pwyllgor y newid mân yn yr adroddiad hwn.

b) Codi Pryderon
c) Polisi Cwynion
d) Polisi Disgyblu

Nododd y Comisiynydd fod y polisïau uchod wedi'u diweddaru i adlewyrchu Safonau'r Gymraeg.

11. Adolygiad o effeithiolrwydd y Pwyllgor

Roedd y Cadeirydd wedi trafod hyn yn unigol â'r aelodau fel rhan o'u trafodaethau arfarnu. Nododd nad oedd yn dymuno trafod y pwnc hwn yn fanwl y tro hyn rhag cyfyngu ar ei olynydd.

Ar ôl trafodaeth fer, cytunodd yr holl aelodau fod y Pwyllgor yn gweithredu'n effeithiol, gan nodi bod aelodau bob amser yn chwilio am ffyrdd i weithredu'n fwy effeithlon.

Dywedodd y Comisiynydd ei bod yn gwerthfawrogi cyfraniad y Pwyllgor ac yn credu bod ganddo gydbwysedd da rhwng herio a deall a chefnogi er rôl.

12. Tryloywder Uwch Wariant yn y Sector Cyhoeddus Datganoledig yng Nghymru

Derbyniodd y Pwyllgor holl argymhellion y Comisiynydd ynghylch y cyngor hwn a'r arweiniad cysylltiedig gan Staff y Comisiwn.

13. Treuliau'r Comisiynydd – nododd y Pwyllgor yr adroddiad hwn.

14. **Rhoddion a Lletygarwch** – nododd y Pwyllgor yr adroddiad hwn.

15. Unrhyw Fater Arall

a) Deddf Datgelu er Lles y Cyhoedd 1998

Nododd y Comisiynydd fod rôl y Comisiynydd wedi cael ei ychwanegu ar 1 Tachwedd 2016, fel person y byddai modd mynegi datgeliadau wrtho o dan y Ddeddf hon, a hynny heb unrhyw rybudd. Mae'r Comisiynydd wedi ysgrifennu at y Gweinidog yn gofyn am eglurhad a bydd yn ceisio cyngor cyfreithiol.

Bydd Kelly Davies yn diweddaru'r Pwyllgor yn ei gyfarfod ar 9 Mai 2017.

b) **Diwrnod Datblygu'r Pwyllgor ar 7 Mawrth**. Cytunodd y Pwyllgor y byddai'n canolbwyntio ar

- rhaglen waith y Comisiynydd yn y dyfodol
- risg
- datblygu aelodau yn y dyfodol

Diolchodd y Pwyllgor i Mary Gillard, Rheolwr Cyllid, am ei gwasanaethau.

Diolchodd y Cadeirydd i Sue Hayward am ei chefnogaeth yn ystod ei gyfnod yn y swydd.

Dyddiad ac amser y cyfarfod nesaf

7 Mawrth 2017 - Diwrnod Datblygu
9 Mai 2017 - Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg